

<b>CYFARFOD</b>	<b>Y CYNGOR LLAWN</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>1 MAWRTH 2018</b>
<b>TEITL YR ADRODDIAD</b>	<b>CALENDR PWYLLGORAU 2018/19</b>
<b>PWRPAS</b>	<b>MABWYSIADU CALENDR PWYLLGORAU 2018/19</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>CYNGHORYDD MAIR ROWLANDS DIRPRWY ARWEINYDD</b>
<b>AWDUR</b>	<b>GERAINT OWEN PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD</b>

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Yn ystod y broses o lunio Calendr Pwyllgorau y Cyngor ar gyfer 2018/19, rhoddwyd gwahoddiad i aelodau etholedig drwy *Rhaeadr* i ddatgan eu barn am amserlennu cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer 2018/19.
- 1.2 Bwriad hyn oedd ceisio sicrhau fod y Cyngor yn rhoi cyfle i bawb i fod yn rhan o'r broses ddemocrataidd, gan felly wneud pob ymdrech i sicrhau fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau addas ac ar amseroedd rhesymol er mwyn cynorthwyo aelodau i gyflawni eu rôl yn effeithiol.
- 1.3 Derbyniwyd sylwadau gan ddau Gynghorydd mewn ymateb i'r cais yn *Rhaeadr*. Roedd y sylwadau yn amrywio o gadw at y trefniadau cyfredol, i'r angen i roi ystyriaeth i wahanol faterion megis lleoli mwy o gyfarfodydd ym Mhenrhyndeudraeth, ble mae hynny'n bosib, i sicrhau nad yw cyfarfodydd yn cychwyn cyn 10 y bore. Mae'r materion hyn yn cael sylw penodol trwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.
- 1.4 Bu ymgynghori ar fersiwn drafft calendr Pwyllgorau 2018/19 y Cyngor gyda Pharc Cenedlaethol Eryri er mwyn sicrhau nad oedd gwrthdaro rhwng cyfarfodydd y ddau sefydliad.

## 2. CALENDR PWYLLGORAU 2018/19

- 2.1. Cyflwynir trosodd galendr ar gyfer dyddiadau cyfarfodydd prif bwyllgorau y Cyngor ar gyfer 2018/19.
- 2.2. Dyma'r dyddiadau yr ydym yn rhaglennu ar hyn o bryd - gall fod angen cyfarfodydd eraill er mwyn gweithredu busnes y Cyngor.

## 3. Hyfforddiant Aelodau

3.1 Petai rhai dyddiadau hyfforddiant yn digwydd gwrthdaro â dyddiadau cyfarfodydd eraill, ceisir cynnig mwy nag un sesiwn ar gyfer yr hyfforddiant penodol hynny er mwyn goresgyn yr anhawster o aelodau yn methu mynychu sesiynau hyfforddiant.

#### **4. ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu y Calendr Pwyllgorau yn derfynol.